# <u>CYNGOR CYMUNED BUAN</u>

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 9 Medi 2021 gafodd ei gynnal drwy gyfrwng sustem ZOOM**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**:
Hughie Williams – Cadeirydd
Catherine Hughes
Philip Roberts
Nia Jones
Tesni Wyn Jones
Rhian Holt - clerc

Mae y cyfarfod yn cael ei gynnal bythefnos yn hwyr oherwydd trafferthion technegol.

1. **Ymddiheuriadau** – Cynghorydd Einir Lewis

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cadarnhawyd cofnodion 8 Gorffennaf 2021 yn gywir gan y Cynghorydd Catherine Hughes ac eilwyd gan y Cynghorydd Nia Jones.

**3. Ymatebion i ohebiaeth**

Cafwyd ateb drwy ebost gan yr adran briffyrdd fel a ganlyn:

1. Mae unrhyw ddiffygion sydd i'w weld yn y gwaith torri gwair yn cael ei adrodd yn ôl i'r cwmni torri gwair allanol. Fel dwi ar ddeall, mae ffyrdd dosbarth 1 a 2 gan gynnwys troadau gweledIad a chyffyrdd mathau 2 am gael sylw eto yn ystod yr hydref.

2. Mae yna fwriad i wneud gwaith ger Bont Sant Glorian, Ceidio pan fydd adnoddau ar gael. Yn y cyfamser mae arwyddion wedi eu gosod ar y safle.

**4. <u>Materion Ariannol</u>**

Derbyniwyd cysoniad y banc am y cyfnod 4 Gorffennaf 2021 i 3 Awst 2021 yn gywir yn y swm o £3423.73, a'r cyfnod 4 Awst 2021 i 3 Medi 2021 yn y swm o £5298.73. (cynnwys y praesept).

Bydd y sieciau isod yn cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y dyddiau nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Rhian Holt | £111.99 | Siec rhif 200630 |
| Cyllid a Thollau ein Mawrhydi | £27.80 | Siec rhif 200631 |
| Cyngor Gwynedd – Gwasanaeth Archwilio 2021 | £144.00 | Siec rhif 200632 |
| Bacstal – chwarter i 31/03/2021 | £125.40 | Siec rhif 200633 |

| | | |
|---|---|---|
| Zurich | £257.60 | Siec rhif 200634 |
| Unllais Cymru - Aelodaeth | £78.00 | Siec rhif 200635 |

Derbyniwyd derbyneb gan Tŷ Gobaith.

**5. Materion Cynllunio**
Roedd tri cais cynllunio wedi ei dderbyn yn electronig a cafwyd y sylwadau canlynol:

**Rhif Cais: C21/0865/33/LL**
Lleoliad: Gors Yr Hafod, Rhydyclafdy, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8PL
Bwriad: Dymchwel yr annedd presennol ac adeiladu tŷ newydd yn ei le – Dim gwrthwynebiad

**Rhif Cais: C21/0645/33/LL** – Bodfel Hall, Boduan – Gwybodaeth ychwanegol at y cais blaenorol. Newid defnydd tir amaethyddol i barc carafanau teithiol arfaethedig (40rh llain) gan gynnwys bloc amwynderau, trac mynediad a mynedfa - Dim gwrthwynebiad, ond sylwadau fel ar y cais cyntaf ynglŷn â'r fynedfa, ydi yn saff i dynnu i mewn ac allan hefo amryw o garafanau i'r lôn fawr?

**Rhif Cais: C21/0739/33/LL**
Lleoliad: Madryn Farm, Dinas, Pwllheli, LL53 8UE
Bwriad: Pwll slyri a gwaith cysylltiol – Dim gwrthwynebiad

**6. Datgan Diddordeb**
Doedd neb yn datgan diddordeb.

**7. <u>Materion er Gwybodaeth</u>**
Mae pob dogfen yn cael ei yrru yn electronig i'r Cynghorwyr drwy e bost.

**8. <u>Unrhyw fater arall</u>**

**Defibrillator**
Derbyniwyd pris gan Gethin Scott i osod y peiriant defib yng Nghapel Ceidio a penderfynwyd gofyn iddo wneud y gwaith.

**Arwydd yn y maes parcio**
Mae arwydd "parcio ar risg eich hunan" wedi cael ei falu, gofynwyd i'r clarc geisio cael un arall.

**Trafodwyd** beth sydd wedi mynd ymlaen yn yr ardal yn ddiweddar:

- Arwyddion 50 m.y.a. ar lôn Boduan wedi eu gosod.
- Cyngor Gwynedd wedi cael gwared â'r fatres gafodd ei lluchio i'r encilfa ger Allt Rhiwgoch.
- Arwydd "dim cŵn" wedi ei osod ar giat sydd yn arwain i'r cae chwarae yn Rhydyclafdy.
- Hughie Williams wedi trefnu i gael gosod y defib ym Moduan yn y dyddiau nesaf ar ôl cael gair gyda'r trydanwr.
- Bydd defib Ceidio yn ei le yn y dyddiau nesaf.

- Cardiau ymddeol a chydymdeimlad (colli ei fam) wedi eu gyrru i Alun Roberts o'r Adran Priffyrdd.
- Datganiad Ariannol ar gyfer y Cynghorwyr wedi ei wneud.
- Nid oes dim byd ychwanegol wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r goryrru yn Rhydyclafdy. Mae y clerc wedi gyrru ebost i holi unwaith yn rhagor. Byddai "*speed bumps*" yn dderbyniol iawn yno.
- Trafodwyd y goeden Nadolig sydd yn y pentref a'r golwg truenus sydd arni. Datganodd Hughie Williams bod coeden Nadolig fawr mewn pot yn ei ardd ac ei fod am roddi'r goeden i'r pentref. Diolchwyd iddo.

**Fframwaith Adfywio Cyngor Gwynedd - Ardal Ni 2035 (Cyngor Cymuned Buan)**
Derbyniwyd ebost gan Alys Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau Ardal Dwyfor yn amgau holiadur oedd angen sylw erbyn mis Hydref. Cytunodd y Cadeirydd, Hughie Williams, gael sgwrs gyda Alys a dyma gopi o'r eitemau gafodd eu trafod:

**Sgwrs hefo Hughie Williams, Cadeirydd Cyngor Cymuned Buan**
23/09/21
**Beth sy'n dda am yr Ardal?**
- Yr iaith Gymraeg
- Traddodiad o hunangyflogaeth o fewn yr ardal
- Digon o lefydd bwyta
- Digon o lefydd i ymwelwyr ddod i aros e.e. meysydd carafanau, mannau campio

**Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?**
- Cyswllt gyda'r we fyd eang yn wael yn rhan fwyaf o'r ardal
- Mewnfudwyr yn prynu tai a'u gosod fel busnes e.e. 'Air B&B' ac osgoi talu'r dreth ac yn amddifadu pobl leol o dai
- Prinder doctoriaid, yn amhosib i weld y meddyg; hefyd ffermwr lleol wedi gorfod disgwyl yn yr ambiwlans am rhai oriau cyn cael ei drosglwyddo i Ysbyty Gwynedd.

**Dychmygwch yn y flwyddyn 2035 eich bod yn byw yn y lle delfrydol. Beth fyddai wedi newid er mwyn hyn ddigwydd?**
- Cyswllt gyda'r we fyd eang yn rhan fwyaf o'r ardal
- Digon o dai fforddiadwy
- Digon o adnoddau iechyd
- Gwesty wedi'i hadeiladu ym Mhwllheli i gefnogi'r diwydiant twristiaeth a dod ag arian i'r ardal
-

a) **Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?**

Mae'n anodd denu aelodau ar y Cyngor Cymuned ac mae prinder grwpiau cymunedol yn y plwyf, felly nid oes llawer o gapasiti i gydweithio.
Bwrdd Betsi Cadwaladr [o ran gwella adnoddau iechyd].

**Unrhyw fater arall oedd wedi codi o’r sgyrsiau ac angen sylw pellach?**
Dim eisiau gweld ‘siop siarad’, eisiau gweld rhywbeth pendant yn dod o’r gwaith ymgysylltu ac yn bwysig ei gario ymlaen.

**Ymddiswyddiad y clerc**
Roedd y clerc wedi gwybyddu y Cyngor y bwriad i ymddiswyddo ym mis Hydref a holwyd y Cynghorwyr yn y cyfarfod os oedd ganddynt unrhyw un dan sylw fyddai yn hoffi gwneud y swydd.
Awgrymodd y clerc y byddai yn gallu rhoi hysbys ar Face Book o dan Swyddi yn Llŷn oherwydd ei bod braidd yn hwyr i’w roi yn Llanw Llŷn tan mis nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 08:00 y.h.
Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 14 Hydref 2021 drwy gyfrwng **ZOOM**.